1.50

# Damwain mewn Pwll Glo

## yn Clydach Vale, D.C.

### NIFER MAWR WEDI EU LLADD A'U CLWYFO.

Dydd Gwener, Mawrth 7, 1905, digwyddodd damwain ddifrifol yn y Clydach Vale, ger Llwynypia, Deheudir Cymru. Cymerodd *explosion* le yn un o'r pyllau,—yn No. 1 Mine—trwy i fflam un o'r lampau ddyfod i gyfarfyddiad a nwy cronedig. Rhedodd y tan ar unwaith, ac mewn ychydig o amser yr oedd un ran o'r pwll yn tanio fel ffwrnes. Achubwyd 65 mewn un lle gan y *rescue party*, a phe buasai y rhai hyn wedi bod 3 munyd yn hwy heb eu gwaredu, buasent yn mhlith y lladdedigion. Y mae 10 o gyrph eisoes wedi eu cael, ac ofnir y bydd nifer y lladdedigion oll o 32 i 35.

Beth yw'r alaeth glywir heddyw,
Chwerw gri yn Ngwlad y De ?
Gweddwon syn, a phlant amddifaid
A ddyrchafent uchel le'
Am anwyliaid wedi trengu
Yn nyfnderoedd y Pwll Glo,
Adsain galar, dwfn och'neidiau
Glywir yn y pruddaidd fro.

Yn y Glydach, ger Llwynpia,
Bu y ddamwain frawchus hon,
Pruddaidd iawn y pâr yr hanes,—
Fe sobreiddia pob rhyw fron ;
Marwol ergyd oedd i luaws,
Ac anafodd lawer un,
Ffrwydriad erchyll gariai dynged
Eiddil lanc a gwrol ddyn.

Cyd-gyfarfyddiad nwy â gwenfflam
Barodd ergyd trwy y lle,
Ac fe red y fflam yn gyflym
Fel y parodd goelcerth gre' ;
Braw ac arswyd ar bob gwyneb,
Gwelwi wnai y dewra'i fryd,
Wrth ystyried maint enbydrwydd
Colli bywyd, newid byd.

Hawdd oedd canfod maint y distryw
A ddigwyddodd yn y lle,
Yr eneidiau gwerthfawr, drudfawr
A ddolefant â chri gre',
Tadau, brodyr a chu geraint
Mewn peryglon marwol mawr,
Pwy all fesur maint dioddefaint
Y trueiniaid oedd i lawr.

Ymgais ddewr a wnaed ar unwaith
I roi cymhorth iddynt hwy,
Eu cyd-weithwyr ar y glanau
Da a wyddant y mawr glwy' ;
Estyn 'mwared i'r trueiniaid
Hyn a lanwai pryd bob un,
Gyda sel a nerth dihafal
Ymegnia pob rhyw ddyn.

Dynion dewr ar fyr ddisgynent
Gyda'r amcan clodfawr hwn ;
Heriant angeu yn eu hymdrech,
Haeddent ddiolch y byd crwn ;
Gweithient gydag egni clodfawr
Achub wnaethant lawer tâd,
Teg yr ymdrech, mawr y wobr,
O dan nodded nefol Dad.

Dylem ddiolch i'r Tâd nefol—
Diolch am drugaredd gaed—
Am na fuasai mwy yn gelain,
Mwy yn gorwedd yn eu gwaed ;
Pe ar arall awr o'r diwrnod
Digwyddasai'r ffrwydriad hon,
Cyfrif canoedd wnaem yn gelain,—
Diolch weddai pob rhyw fron.

Mae gweddiau'r wlad yn estyn
At orseddfainc y Duw Dad,
Am ymwared i'w hanwyliaid,
Am oleuni ar eu stâd ;
Tad 'r amddifad ddyry iddynt
Nawdd a chymhorth yn eu loes,
Gwenau'r nefoedd a fo drostynt
Yn daenedig trwy eu hoes !

GALARWR.

X205199894